**oni bai ei fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor.**

**Mae cofrestru'n rhoi sicrwydd i gyflogwr a'r cyhoedd nad oes gan berson cofrestredig ddim byd perthnasol wedi'i gofnodi yn ei erbyn a allai ei wneud yn anaddas i addysgu dysgwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod athro ysgol yn meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC).**

* mae gofyn cael lleiafswm cymwysterau ar gyfer y categorïau hyn.
Mae mwy o wybodaeth ar y wefan [www.cga.cymru/cofretru](www.cga.cymru/cofretru)

## A oes safonau y mae disgwyl i ymarferwyr addysg eu bodloni?

Oes. Mae gan CGA God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ganllaw i'r safonau y gall dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd eu disgwyl gan bersonau cofrestredig, ac mae'n helpu ymarferwyr addysg i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl ganddynt fel gweithwyr proffesiynol.

Er bod 99.9% o bersonau cofrestredig yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod, mae lleiafrif ohonynt yn gweithredu'n groes iddo bob blwyddyn.

Mae gan CGA rymoedd cyfreithiol i ymchwilio i'r achosion hyn o weithredu'n groes i'r Cod a phenderfynu a yw'r ymarferwyr addysg dan sylw yn addas i barhau i fod wedi'u cofrestru.

Nid yw'r Cod yn trafod pob enghraifft o safonau y mae angen i'r gweithwyr proffesiynol hyn eu bodloni.

## Ymchwiliad a gwrandawiad

Bydd CGA yn ystyried pob achos o weithredu'n groes i'r Cod a gaiff ei adrodd iddo, ond dim ond y rheiny lle mae'n credu y gellid bodloni'r trothwy ar gyfer 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol', 'anghymhwysedd proffesiynol difrifol' neu euogfarn am 'drosedd berthnasol' y bydd yn ymchwilio iddynt.

Er enghraifft, mae diswyddo am:

- ymyrryd â gwaith cwrs arholiadau;
- perthynas amhriodol gyda dysgwr;
- ymosod ar ddysgwr

yn fwy tebygol o fodloni'r trothwy ar gyfer 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol'.

Dim ond yr enghreifftiau mwyaf difrifol o achosion o weithredu'n groes i'r Cod a gaiff eu cyfeirio fel y cynhelir gwrandawiad cyhoeddus. Un canlyniad posibl yw bod cofrestriad yr ymarferydd addysg yn cael ei atal neu ei ddileu, neu rhoddir rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

## Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw'r wybodaeth yn y daflen hon am weithdrefnau disgyblu CGA.

